# Bargeinion Dinesig, Bargeinion Twf a'r Dull Datblygu Economaidd Rhanbarthol

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i Gyngor Datblygu'r Economi ar Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf yng Nghymru, yn ogystal â chyfeiriad ehangach gwaith datblygu'r economi yn rhanbarthol.

## Cyd-destun

2. Mae'r Cyngor wedi gofyn am yr eitem hon ar yr agenda a'r papur ategol gan Lywodraeth Cymru i drafod ymgysylltu yn y Bargeinion Dinesig a Thwf.

3. Mae'r papur yn defnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd yn ddiweddar gan Weinidogion Cymru i Bwyllgor Economi a Seilwaith y Cynlluniad Cenedlaethol sy'n cynnal ymchwiliad i Fargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru.

4. Rydym yn cydnabod bod rhai aelodau o'r Cyngor wedi bod yn ceisio trefnu cyfarfod â Chadeirydd y Cabinet Rhanbarthol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rydym yn deall bod y tîm Bargen Ddinesig mewn cysylltiad ag Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru ac yn ceisio trefnu cyfarfod.

## Cefndir

5. Yn y De, mae dwy Fargen Ddinesig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Yr egwyddor allweddol yw bod partneriaid lleol yn datblygu a chyflawni cynigion a fydd yn creu twf economaidd lleol.

6. Mae cynnig Bargen Twf yn esblygu yn y Gogledd ac mae partneriaid yn trafod diddordeb mewn dull Bargen Twf yn y Canolbarth.

7. Yn ogystal â'r datblygiadau Bargeinion Dinesig a Thwf hyn ac i'w hategu, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi nodi bwriad i adeiladu ar ôl-troed y Bargeinion Dinesig a Thwf drwy ddatblygu dulliau rhanbarthol unigryw sydd â ffocws i sbarduno twf ledled Cymru gyfan.

8. Mae Bargeinion Dinesig a Thwf yn cyd-fynd â chynigion Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol hefyd. Mae Bargeinion Dinesig a Thwf wedi profi'r cyfleoedd y mae diwygio llywodraeth leol yn eu cyflwyno drwy ddarparu'r fframwaith, y tu hwnt i fuddsoddiad y Fargen Ddinesig, sy'n galluogi rhanbarthau i gydweithio i bennu blaenoriaethau economaidd a chyflawni swyddogaethau allweddol fel rhanbarth, gan gynnwys cynllunio defnydd tir, sgiliau, trafnidiaeth a datblygu economaidd.

**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

9. Arwyddodd yr awdurdodau lleol a Llywodraethau Cymru a'r DU Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ym mis Mawrth 2016. Nod y Fargen hon yw darparu'r adnoddau i bartneriaid lleol ddatgloi twf economaidd sylweddol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan alluogi arweinwyr yr awdurdod lleol i wneud penderfyniadau ar sail ranbarthol, cyfuno eu hadnoddau a gweithio'n fwy effeithiol gyda busnesau lleol.

10. Sefydlodd y Fargen Gronfa Fuddsoddi o £1.2 biliwn ar gyfer y Rhanbarth dros gyfnod o ugain mlynedd. Mae'r Fargen yn ceisio adeiladu ar gryfderau sectorau'r rhanbarth, ei sylfaen sgiliau uchel a thair prifysgol lwyddiannus. Mae'n cynnig cyfle i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau'r ardal i dwf economaidd drwy wella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau; cefnogi pobl i waith; a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i arloesi a thyfu.

<u>Effaith</u>

11. Yn ystod ei hoes, nod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw creu hyd at 25,000 o swyddi newydd ac ysgogi £4 biliwn ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat.

<u>Cyllid</u>

12. Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n werth £1.2 biliwn ac yn cynnwys cyllid o £734 miliwn ar gyfer Metro De Cymru – gyda £550 miliwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, £125 miliwn gan Lywodraeth y DU a £106 miliwn gan ERDF. Mae £495 miliwn pellach (£375 miliwn gan Lywodraeth y DU a £120 miliwn gan awdurdodau lleol) hefyd ar gael i flaenoriaethu yn unol ag amcanion y Fargen.

<u>Llywodraethu</u>

13. Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'u cyhoeddi ac mae'r deg awdurdod lleol a Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cytuno arnynt.

14. Mae'r awdurdodau lleol wedi sefydlu Cabinet ar y Cyd i ddarparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer y Fargen. Bydd yn cael ei gefnogi a'i gynghori gan Bartneriaeth Twf Economaidd a Sefydliad Busnes Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y Fargen yn adlewyrchu anghenion y sector preifat a rhanddeiliaid ehangach. Mae Awdurdod Trafnidiaeth Ranbarthol cysgodol wedi'i greu hefyd i sefydlu blaenoriaethau strategol ledled y rhanbarth.

15. Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu'r gwaith o adnabod a dethol ymyriadau, gwneud penderfyniadau, rheoli risg a monitro, gwerthuso ac adrodd parhaus hefyd, i sicrhau bod y Fargen Ddinesig yn cyflawni'r manteision a fwriedir ar gyfer y rhanbarth yn llwyddiannus.

Trefniadau Monitro

16. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu cynllun gweithredu, monitro a gwerthuso y cytunir arno.

17. Mae dyraniad llawn y cyllid yn amodol ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cwblhau'r Adolygiadau Porth Pum Mlynedd yn llwyddiannus, a fydd yn gwerthuso effaith buddsoddiad y cyllid gan y Fargen yn ystod y cyfnod pum mlynedd hyd yr Adolygiad. Bydd yr asesiadau'n cael eu hategu gan adolygiad annibynnol o fanteision economaidd ac effaith economaidd y buddsoddiadau ac a yw prosiectau a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol wedi'u cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

**Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

18. Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sy'n werth £1.3 biliwn, yw'r ail fargen yng Nghymru, a lofnodwyd ym mis Mawrth 2017. Mae'n cynnig cyfrwng i gefnogi twf economaidd ledled y De-orllewin. Mae llofnodi'r fargen hon yn cadarnhau ymrwymiad ar y cyd ymysg y pedwar awdurdod lleol, Llywodraethau Cymru a'r DU, i gydweithio a gweithredu'r cynlluniau a ddisgrifir yn y ddogfen yn llawn.

19. Mae Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi'i strwythuro'n wahanol i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn hytrach na sefydlu cronfa seilwaith, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r partneriaid wedi cytuno i gyllido cyfres o brosiectau ar y cyd ar y themâu Iechyd, Ynni, Cyflymu Economaidd a Gweithgynhyrchu Clyfar. Mae un ar ddeg prosiect mawr wedi'u cynnig i gyd. Bydd achosion busnes manwl yn cael eu datblygu yn awr ac yn cael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r partneriaid yn datblygu'r trefniadau llywodraethu hefyd i ddarparu arweinyddiaeth gref ac atebolrwydd am ddarparu'r Fargen yn llwyddiannus.

Effaith

20. Yn ystod y 15 mlynedd nesaf, nod y Fargen yw hybu'r economi leol gyda £1.8 biliwn a chreu bron i 10,000 o swyddi newydd, gan ddenu £637 miliwn o'r sector preifat.

Cyllid

21. Bydd Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cael ei hategu gan becyn buddsoddi o £1.3 biliwn, sy'n cynnwys £125.4 miliwn o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, £115.6 miliwn o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru , £396 miliwn o arian sector cyhoeddus arall a £637 miliwn gan y sector preifat.

Llywodraethu

22. Mae'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn seiliedig ar Gabinet ar y Cyd. Mae'r dull hwn o weithio yn rhoi lle canolog i awdurdodau lleol yn y Fargen. Mae'r Fargen yn cynnig creu Bwrdd Strategaeth Economaidd hefyd a fydd yn monitro cynnydd wrth ddarparu'r Fargen a darparu cyngor strategol i'r Cyd-bwyllgor ar y Fargen Ddinesig. Mae'r pedwar awdurdod lleol wrthi'n cytuno ar drefniadau llywodraethu ffurfiol a model cyflawni a bydd angen i Lywodraethau Cymru a'r DU eu cymeradwyo.

Monitro

23. Bydd Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn gweithio gyda Llywodraethau Cymru a'r DU i ddatblygu cynllun gweithredu, monitro a gwerthuso y cytunir arno cyn dechrau'r Fargen, sy'n nodi'r dull arfaethedig o werthuso effaith y gwaith darparu.

**Bargen Twf ar gyfer y Gogledd**

24. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Rhanbarth Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ystyried sut gall y Fargen Twf gefnogi eu huchelgeisiau orau i sicrhau twf economaidd pellach.

25. O ran Bargeinion Dinesig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried datganoli pwerau ychwanegol a hyblygrwydd i lywodraeth leol lle mae achos cryf y gallai hyn gefnogi twf rhanbarthol.

26. Cyflwynwyd dogfen weledigaeth 'Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru' i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddechrau fis Awst 2016 ac mae'n fan cychwyn pwysig yn y gwaith o ddatblygu'r Fargen. Cytunodd y chwe Awdurdod Lleol a Chyngor Busnes Gogledd Cymru yn unigol ar y weledigaeth a oedd yn cynnwys cytundeb mewn egwyddor i sefydlu Cyd-bwyllgor i gymryd meddiant o Gynnig Twf Gogledd Cymru a'i roi ar waith.

27. Wrth droi'r weledigaeth hon yn ymyriadau penodol a all gael effaith economaidd yn y rhanbarth, rydym wedi bod yn glir bod angen i bartneriaid nodi pecyn realistig a chymesur o fesurau i ddatgloi cymorth ariannol Llywodraethau Cymru a'r DU.

28. Croesawyd ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU yng nghyllideb mis Mawrth 2017 a'u Maniffesto i Fargen Twf Gogledd Cymru ac edrychwn ymlaen at ystyried cynigion pellach gyda Llywodraeth y DU maes o law.

29. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid rhanbarthol i ddeall sut y gallwn gefnogi eu huchelgeisiau orau, gan gynnwys y Bwrdd Uchelgais mewn perthynas â'u pedair ffrwd waith allweddol.

30. Rydym yn ymgysylltu'n frwd hefyd â'n rhwydwaith ehangach o randdeiliaid a phartneriaid a all gynorthwyo i gyflawni ffyniant economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y tair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Growth Track 360, Cheshire and Warrington Local Enterprise Partnership, ynghyd â phartneriaid a sefydliadau allweddol eraill ledled y Gogledd a'r ardal ehangach Pwerdy Gogledd Lloegr.

**<u>Bargen Twf Canolbarth Cymru</u>**

31. Rydym yn parhau yn ymrwymedig i weithio gydag unrhyw ardal yng Nghymru sy'n dymuno ystyried sut gallai Bargeinion Dinesig a Thwf fod o fudd iddynt.

32. Mae Powys a Cheredigion yn parhau i ddatblygu 'Tyfu Gorllewin Cymru' gyda Phartneriaeth Tyfu Gorllewin Cymru a sefydlwyd yn gynnar yn 2015 fel partneriaeth ranbarthol a oedd yn cynnwys cyrff cynrychioliadol o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn y Canolbarth i arwain dull cydweithredol y rhanbarth o ran datblygu economaidd.

33. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu Fframwaith Gweithredu sy'n cyflwyno blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni twf economaidd a ffyniant ledled y rhanbarth. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Menter Leol y Gororau hefyd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin ac mae'n ymgysylltu ar faterion trawsffiniol â chyrff eraill yng Nghanolbarth Lloegr.

34. Rydym yn disgwyl hefyd y byddai dwy gyfres o drefniadau unigryw yn parhau dan ambarél ardal cyd-bwyllgor llywodraethu Canolbarth a De-orllewin Cymru.

**<u>Dull Datblygu Economaidd Rhanbarthol</u>**

35. Fel rhan o'r gwaith strategol ehangach sydd ar waith, byddwn yn bwrw ymlaen â dull rhanbarthol newydd o ddatblygu economaidd. Mae'r dull hwn yn cydnabod ein bod wedi gweld ac yn parhau i weld llwyddiannau economaidd niferus ledled Cymru, ond nad yw'r manteision yr un fath ym mhobman.

36. Mae'r gwahaniaethau rhanbarthol sy'n bodoli rhwng ein cymunedau yn un o'r problemau strwythurol pwysicaf yn ein heconomi. Rydym am dargedu ein hymyriadau i wahanol anghenion economaidd pob rhanbarth yng Nghymru er mwyn inni gefnogi pob rhan o'n cenedl i elwa ar dwf economaidd, tra'n mynd i'r afael â rhai o'r gwahaniaethau rhanbarthol sy'n bodoli o ran cyfoeth a chyfleoedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni weithio'n wahanol.

37. Byddwn yn rhoi ffocws newydd a mireinio ein dull er mwyn ein helpu i sicrhau twf cytbwys ledled Cymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy feithrin

dimensiwn rhanbarthol i'r ddarpariaeth genedlaethol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu adeiladu ar ôl-troed y Dinas-Ranbarthau, a chysoni datblygu economaidd ag ardaloedd presennol ar gyfer y partneriaethau dysgu rhanbarthol a chyfeiriad cydweithio llywodraeth leol ar ddatblygu economaidd yn y dyfodol.

38. Byddwn yn cyflwyno manylion ein dull yn yr wythnosau nesaf, gan gynnwys sefydlu timau a fydd yn gweithio'n rhanbarthol yn y De-ddwyrain, y De-orllewin, y Canolbarth a'r Gogledd. Byddwn yn egluro sut y byddwn yn gweithio'n hyblyg hefyd, o fewn, ar draws a thu hwnt i'r rhanbarthau hyn i sicrhau canlyniadau economaidd gwell a thecach.

**Gofynnir i Aelodau'r Cyngor:**

a) **Nodi'r diweddariad ar y Bargeinion Dinesig a Thwf.**

b) **Rhoi sylwadau ar y papur yn gyffredinol ac yn benodol mewn perthynas ag ymgysylltu.**